**Polisi Cod Ymddygiad Gwirfoddolwyr Cartrefi Gofal**

**Pwrpas**

Pwrpas y polisi hwn yw darparu cod ymddygiad i wirfoddolwyr cartrefi gofal Age Cymru.  Nid yw'n disodli unrhyw wybodaeth a ddarperir yn ystod y sesiynau Diogelu neu Hyfforddiant Gwirfoddolwyr.

**Cwmpas**

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i holl wirfoddolwyr cartrefi gofal sydd wedi cofrestru gydag Age Cymru.

**Datganiad polisi**

Mae ymddygiad proffesiynol a phersonol gwirfoddolwyr yn cynnwys:

• Y ffordd y mae gwirfoddolwyr yn cyflawni eu dyletswyddau

• Parch tuag at gwsmeriaid/cleientiaid/aelodau'r cyhoedd

• Parch tuag at aelodau o staff a gwirfoddolwyr eraill gan gynnwys cydweithredu a chyfle cyfartal, a gweithle sy’n rhydd o wahaniaethu ac aflonyddu

• Parch tuag at faterion sy’n ymwneud ag iechyd a diogelwch gan gynnwys polisi'r sefydliad ar alcohol a chyffuriau

• Parch tuag at weithdrefnau'r sefydliad

• Parch tuag at breifatrwydd, cyfrinachedd

• Parch tuag at y cod gwisg

• Gwneud sylwadau cyhoeddus

• Cyswllt â'r cyfryngau

**Atebolrwydd**

Bydd unrhyw doriad o'r uchod yn cael ei reoli gan eich Goruchwyliwr.  Enw mewn priflythrennau:

Dylid trosglwyddo copi wedi'i lofnodi o hwn i'ch Goruchwyliwr

Llofnod: ………………………………………………. (gwirfoddolwr)

Dyddiad………………………..

---

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023

**Ymddygiad proffesiynol a phersonol gwirfoddolwyr**

Gall ein hymddygiad a'n gweithredoedd gael eu camddehongli'n hawdd. Rydyn ni i gyd wedi'n cyfyngu gan ein profiad a'n dealltwriaeth. Byddwch yn ymwybodol o'r canlynol er mwyn sicrhau eich bod yn ymwybodol o ddisgwyliadau wrth wirfoddoli.

**Modd y mae gwirfoddolwyr yn cyflawni eu dyletswyddau**

- Agwedd ddymunol a chadarnhaol
- Dibynadwyedd a chyfathrebu da gyda'r cartref gofal.
- Cynnal ffiniau proffesiynol, peidiwch â rhannu eich gwybodaeth bersonol, na manylion cyswllt
- Peidiwch â derbyn na rhoi anrhegion oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan y cartref gofal
- Peidiwch â threulio amser gormodol gydag un preswylydd.  Mae'n bosib gall hyn fod yn ffordd o ffafrio un person neu ffordd o wahardd eraill
- Dylai iaith fod yn briodol, a ni ddylai eich iaith achosi tramgwydd neu sarhad
- Byddwch yn chi'ch hun ac annog pobl i deimlo'n gyfforddus yn eich presenoldeb ond nid y tu hwnt i ffin eich rôl. Mae meithrin perthnasau yn beth da, ond dydych chi ddim yn ffrind personol i'r preswylwyr

**Parchu gweithdrefnau 'r cartref gofal**

- Cofiwch eich bod ar safle'r cartref gofal a rhaid i chi ddilyn eu cyfarwyddiadau bob amser
- Efallai y bydd yn rhaid iddyn nhw newid trefniadau gwirfoddol yn ôl eu gofynion gwaith, rhaid deall a pharchu hyn
- Siaradwch â'ch cyswllt allweddol os oes angen i chi drafod unrhyw newidiadau

---

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023

**Parch at breifatrwydd, cyfrinachedd**

- Rhaid rhannu unrhyw ddatgeliad a wnaed i chi gyda'ch cyswllt cartref gofal neu gyda'ch cydlynydd gwirfoddolwyr
- Peidiwch addo cyfrinachedd
- Peidiwch â rhoi eich hun mewn perygl trwy gynnig cyngor personol neu ymchwilio i bryderon eich hun
- Peidiwch â rhannu gwybodaeth na phryderon y tu allan i'r sefydliad
- Os ydych wedi profi unrhyw beth sy'n gwneud i chi deimlo'n anghyfforddus neu'n ddigalon, rhannwch hyn gyda'ch cyswllt cartref gofal neu gydlynydd gwirfoddolwyr – mae angen i chi hefyd deimlo eich bod yn cael eich cefnogi

**Parch at god gwisg**

- Fel canllaw dylai eich ymddangosiad fod yn hamddenol ond yn daclus, yn lân ac yn smart
- Dyw logos ar grysau-t neu jîns wedi eu rhwygo ddim yn gwneud argraff dda
- Mae'r hyn rydych chi'n ei wisgo yn gwneud argraff, mae'n neges ddi-eiriau amdanoch chi'ch hun

**Gwneud sylwadau cyhoeddus**

- Ni ddylid defnyddio sylwadau cyhoeddus ar y cyfryngau cymdeithasol i amlygu pryderon na sylwadau am y cartref gofal

**Cyswllt â'r cyfryngau**

- Peidiwch â chysylltu â'r cyfryngau i nodi pryder ynghylch y cartref gofal. Mae canllawiau ar sut i nodi pryderon wedi'u cynnwys yn y broses Diogelu a Chwythu'r Chwiban

---

Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestredig Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023